Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| | |
|---|---|
| Eich cyf / Your ref: | Gofynner am / Please ask for: |
| Fy nghyf / My ref: | Llinell Uniongyrchol / Direct Line: |
| Dyddiad / Date: | E-bost / Email: Cwestiwnecs@sirgar.gov.uk QuestionECS@carmarthenshire.gov.uk |

Annwyl rhieni a gwarcheidwaid

**Hysbysiadau Cosb**

Diben y llythyr hwn yw eich hysbysu y gellir cyflwyno hysbysiadau cosb pan fydd gan blentyn absenoldebau anawdurdodedig o'r ysgol. Byddant yn cael eu cyflwyno yn unol â Chôd Ymddygiad Cyngor Sir Caerfyrddin, sydd ar gael ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin o'r farn bod unrhyw absenoldeb o'r ysgol, am ba bynnag reswm, yn niweidiol i gyfleoedd bywyd hirdymor plentyn, felly dylid ei osgoi os yw hynny'n bosibl. Mae lleihau absenoldeb o'r ysgol yn flaenoriaeth allweddol, yn genedlaethol ac yn lleol, oherwydd bod colli'r ysgol yn niweidio lefelau cyrhaeddiad disgybl, yn tarfu ar drefnau ysgol a gall adael disgybl yn agored i ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau ieuenctid.

Gellir cyflwyno hysbysiad cosb yn hytrach nag erlyniad gyda'r nod o geisio sicrhau gwelliant i bresenoldeb y disgybl.

Gall yr ysgol wneud cais am hysbysiad cosb i Gyngor Sir Caerfyrddin yng nghyswllt absenoldeb anawdurdodedig o'r ysgol. Os yw'r rhiant/gofalwr yn rhoi rheswm dros yr absenoldeb, yna penderfyniad y pennaeth fydd derbyn neu beidio â derbyn hwn, a sicrhau bod y gofrestr yn cael ei marcio yn briodol.

Os oes cais am hysbysiad wedi'i wneud, bydd y rhiant/gofalwr yn derbyn llythyr ffurfiol sy'n rhoi 15 diwrnod iddo ddarparu tystiolaeth i Gyngor Sir Caerfyrddin nad oedd cyfiawnhad am yr absenoldebau anawdurdodedig o dan yr amgylchiadau ac y dylid diwygio'r gofrestr yn unol â hynny. Cyfrifoldeb y Pennaeth fydd penderfynu a yw'r dystiolaeth yn cael ei derbyn a pha un a ddylid diwygio'r gofrestr. (Sylwer nad oes cyfyngiad ar nifer y rhybuddion ffurfiol y gellir eu cyflwyno).

Pan na cheir unrhyw ymateb i'r llythyr ffurfiol neu phan fydd y dystiolaeth yn annigonol, bydd hysbysiad cosb yn cael ei gyflwyno i'r rhiant/gofalwr os bydd Cyngor Sir Caerfyrddin o'r farn bod hynny'n briodol.

**Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc**
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE



Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg | You are welcome to contact me in Welsh or English

£60 yw swm yr hysbysiad cosb os caiff ei dalu o fewn 28 diwrnod i’w gyflwyno, ac os na chaiff ei dalu yn ystod y cyfnod hwn bydd y gosb yn cynyddu i £120 a rhoddir 14 diwrnod arall i’w thalu (cyfanswm o 42 diwrnod o’r dyddiad cyflwyno). Os na chaiff y gosb ei thalu, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried cychwyn achos erlyn yn erbyn y rhiant/gofalwr am drosedd o dan Adran444 o Ddeddf Addysg 1996.

Os oes rheswm pam mae eich plentyn yn absennol, mae'n bwysig eich bod yn cyfleu hyn i'r ysgol a lle bo'n briodol yn ymgysylltu ag unrhyw gymorth ac arweiniad a roddir.



**EDG Morgans**
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant**
**Director of Educatoin & Children’s Services**

**Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc**
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children’s Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg | You are welcome to contact me in Welsh or English